OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 713 (Cy.69)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Mawrth 2010* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1, 4 i 8, 11, 12 a 14 i 16 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, ac adran 24 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol â pharagraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**3**):

(**1**) 1988 p.41. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 1, 4 i 8, 11, 12, 14 i 16 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, ac adran 24 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 breiniwyd y swyddogaethau hynny bellach yng Ngweinidogion Cymru. Diwygiwyd Atodlen 11 i Ddeddf 1988 gan Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer Tribiwnlys Prisio Lloegr 2007 a gwneud diwygiadau canlyniadol yn y darpariaethau a oedd yn weddill yn Atodlen 11, i'r graddau yr oeddent yn ymwneud â Chymru.

(**2**) 1992 p.14 (*gweler* y troednodyn uchod ynglŷn â throsglwyddo swyddogaethau).

(**3**) 2007 p.15.